Rhifyn 86 Ebrill 2015

# Bwletin Llên Natur

*Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas*



**Ysgyfarnog fynydd**, Chwefror 8ed, 2015, Dark Peak, swydd Derby
Llun gan Colin Dixon o ysgyfarnog fynydd yn yr eira. Nid ydym yn gweld yr ysgyfarnog yma yng Nghymru yn anffodus. Fel y gwelwch yn y llun mae'r ysgyfarnog yn troi yn wyn yn y gaeaf.

Llun: Colin Dixon, capsiwn Alun Williams

## Y bergath neu'r jenet



Anifail wedi ei stwffio mewn ty yn ardal y Vendée, Ffrainc, 2003 Duncan Brown

Tynnodd Dominig Kervegant ein sylw at y fideo bach yma, a'r capsiwn:

*Non ! ce n'est pas chat sauvage ce mammifère il est devenu rare.Il semblerait que ce soient les Sarrasins (lors de l'occupation de l'Espagne du VIII° au XV° siècle) qui aient - involontairement - introduit la genette dans nos régions du sud-ouest de l'Europe. En effet, il semble que notre genette était domestiquée par les Maures, qui s'en servaient comme dératiseur et animal de compagnie, comme notre chat domestique.* **GT**

## Gwyddau talcen gwyn



Gweler lun o 14 o Wyddau Talcen Gwyn (a dwy Hwyaden Gopog) ffliodd i mewn a glanio ar Llyn Coron bore Sul, 8/02/15. Dim ond am rhyw 10 munud yr arhoson nhw, cyn hedfan i ffwrdd i gyfeiriad y Gogledd. Wil Williams

Ew llun da! Do mi oeddwn i wedi clywed fod 'na haid o gwmpas Ynys Môn, er heb eu gweld fy hun. Hyd y gwn i Les Colley welodd nhw gynta ar Gors Malltraeth ar y 18fed o Ionawr, gweler yma
http://webirdnorthwales.blogspot.co.uk/search?updated-max=2015-01-24T21:52:00Z&max-results=7
ac yma
http://webirdnorthwales.blogspot.co.uk/2015/02/geese-still-around.html
Yr is-rywogaeth o Greenland ydynt. Gellir deud oherwydd eu pigau oren. Pigau Pinc sydd gan y rhai o Rwsia. Rhys Jones

## O dan y chwydd wydr



Dyma bluen lwyd - colomen am wn i - Coed y Gawen, Rhuthun — Gwyn Williams

## Llanw mwya'r ganrif



2014



2015

*Exceptional high tides 21 Chwefror 2015], the highest this century! (Ok it's a 15 year record).... High tide between Llanddwyn & Rhosneigr around 10:00am to 12:00 noon. Today's high tide appears to have passed without incident.*

*My photos taken in Feb 2014 & Feb 2015 record the actual tidal conditions. Last Feb the car park in Malltraeth was flooded along with some dwellings. Today the high water did not approach anywhere close to last years limits. By contrast today was calm with an off shore breeze, last year saw an onshore gale. 29th September next sees an even higher prediction. There ere must be almost a metre difference, last years being higher than this year. Theoretically yesterdays tide should have been higher. Last year the water flooded the road, carpark and houses, this year it did not leave the shore. My guess, all down to wind and air pressure differences.*


Ewch yma i weld rhegen ddŵr yn ceisio dianc rhag y llanw uchel iawn, Park Gate, Chwefror 20 — Alun Williams

## Brwyn Esguan, Tywyn

Tywyn, Meirionydd 14 Medi 1882: Diwrnod cawodog hela brwyn yn ngwern Esguan a dwad a llwyth adra

Dyddiadur Edward Edwards, Faenol Isaf, Tywyn, Meirionydd.

Mae Esguan [saeth] yn un o'r ffermydd agosaf at Faenol Isaf. Rwy wedi gweld yr enw wedi ei sillafu mewn sawl ffordd yn y dyddiadur, fel arfer Esgian. Mae tir yn agos at y ffermydd dim ond wedi ei ail-ennill... ar ôl i'r rheilffordd ddod i Tywyn yn 1866




Gwern Esguan yn 1834 (cyn y rheilffordd)
[cyhoeddwyd y map gyda chaniatad y Llyfrgell Brydeinig]

Felly tybiaf fod rhannau ohono yn dal yn wlyb ac yn gorsiog pan oedd Edward Edwards yn ysgrifennu ac o fan yna mae wedi casglu ei frwyn. — Rwth Tomos, Tywyn




A dyma sut oedd y lle yn fuan ar ol codi'r rheilffordd a Llyn Borth a'i byllau wedi diflannu

## Tre'r Cocos

*In the latest [Caeau Cymru S4C, 2015], the farmer refers to the people of Tre'r Ddôl as Cockletonians, they worked the cocklebeds, ate the cockles and spread the shell in the fields to improve the soil. I guess something similar once happened in Malltraeth (though I think CCW spread the shells on Ynys Llanddwyn). You do find cockleshells in the fields of Malltraeth Marsh/ Cors Ddyga. I'm not sure if they were spread or just left in the sand when the land was reclaimed. The name above opens more questions! The term I've heard in Malltraeth is Cockletown, slightly different, but similar to Cockletonian.*

Steve Roddick



Llwybrau'r ser o amgylch seren y gogledd. Wedi ei dynnu yng Nghwm Dolgain, Trawsfynydd 16/02/15

Keith O'Brien

**99,999 - y gwalch ac un ddrudwen yn llai!**



Dywedodd Kelvin Jones ar Galwad Cynnar [Chwefror 2015] bod 100,000 drudwy yn Afonwen. Heno, fe fydd un yn llai yno! Dyma fideo o'r gwalch Gareth Jones

**Cwpan robin goch**

neu *Sarcoscypha austriaca*, Cae ger Lon Tai Madog, Llanrug, 27 Chwefror 2015 Gill Brown



Er fod y llyfrau yn dweud mai o'r gaeaf cynnar i'r gwanwyn cynnar yw tymor y ffwng hwn, mae 5 enghraifft arall ohono yn Oriel Llên Natur ym mis Chwefror ac un ym mis Ebrill

**Llysieulyfr teuluaidd.... MWY**

Meddai Bethan Wyn Jones am lysieulyfr Gwyn Edwards yn y rhifyn diwethaf (tud. 5): "rydw i wedi gweld un tebyg iawn i hwn, er mai dim ond enw David Thomas Jones, Llanllyfni sydd ar hwnnw. Addasiad ydi o waith Culpepper, yr Herbal".

**Map y llannau**

Dwi am fentro dehongli'r map a gafwyd yn y rhifyn diwethaf (tudalen 3). Gellir gwahaniaethu tri neu bedwar "man poeth" i'r enwau 'Llan... " yng Nghymru. Yn nhrefn eu cryfder, a) arfordir y de ddwyrain a dyffryn Gwy, b) y de orllewin o Fro Gwyr i Benfro, c) gogledd Mon, ac ch) gororau'r gogledd ddwyrain. Ai patrwm sydd yn adlewyrchu'r coloneiddio Cristnogol o'r môr sydd yma, gyda'r gwladychiad i weddill Cymru yn dilyn yn bennaf dyffrynnoedd yr afonydd Gwy a'r Wysg? Ynteu ai adlewyrchu dwysder mwyaf y boblogaeth yng nghyfnod cynnar yr eglwys Geltaidd? Rhoi barn rhywun? Gol.

**Helpu canolfannau mynydda i ddeallt pwysigrwydd enwau**

Gwefan gyffroes newydd

http://enwaucymru.org/

**Entomoleg pysgotwyr**
Rhinog Fawr 3 Mehefin1884: *Tuesday June 3rd After breakfast at nine, Louis Self and I accompanied by Henry who carried the lunch, made an expedition to Glowlyn* [llyn ar ochrau Rhinog Fawr], *and we walked up there in about an hour and twenty minutes. The breeze was everywhere on the lake, which made it very difficult to fish, and at times there was very little of it.* ***A few nice fish were rising and the Alder* and little yellow dun** were thick on the water during the morning.*** *The breeze became steadier in the afternoon, but then the fish were not rising so well. Louis Self and Henry left soon after five but I stayed up until twenty minutes to seven, consequently I was not home until eight o`clock. Glowlyn CEME Trout 5 Largest 1/2lb Louis Self Trout 3*
*[* =Sialis spp. (S. lutaria) alder fly Plecoptera; "the presence of the natural fly on the water seldom noticeably affects the success of the artificial"*
*** Baetis vernus yellow dun, medium olive dun]*
Dyddiadur "Sporting Diary" CEM Edwards Dolserau (Archifdy Dolgellau)

## Morfil pengrwm cyntaf i Brydain yng Nghernyw

*Stori yma. Dywedodd Dr Peter Evans o'r Seawatch Foundation* bod morfilod pengrwm (*Balaena mysticetus*) yn anarferol ymysg y morfilod yn rhinwedd y ffaith eu bod yn cadw i fannau oeraf y byd, byth yn bell iawn o ymyl y rhew. Mae ei ymddangosiad mor bell i'r de a Chernyw yn benbleth, yn enwedig wrth i'r moroedd gynhesu, ffenomenon sydd yn fwy tueddol o annog rhywogaethau i ymestyn ymhellach i'r gogledd. Efallai bod hwn, ac ambell gofnod lled-ddeheuol arall yn yr UD, yn ganlyniad i'r darnio a'r chwalu sydd yn digwydd i cap rhew'r Arctig ar hyn o bryd, neu, i'r cynnydd presennol y mae'r rhywogaeth hon yn ei fwynhau yn ei diriogaeth arferol. Ffaith diddorol am y morfil hwn: *Life Span: 100-200 years making this possibly the longest-lived of all marine mammals (evidence coming from old harpoon heads found in hunted individuals, and aspartic acid analysis from eye tissue). Bowheads reach sexual maturity at around 20 years of age.*

## Peli duon yr ynn


Llun: DB

Ffwng cyffredin ar onnen *Daldinia concentrica*, Tynnwyd y llun ym mis Mawrth 2013 mewn coedwig ger Tyddyn Alys, Llanfaglan.

Gwyliwch y gofod - mi fydd rhestr Cymraeg y ffyngau yn ymddangos yn fuan

## Henaduriaid yr Inuit yn rhannu gwybodaeth gyda NASA am newidiadau yn sigliad y ddaear



Adroddad o Ganada trwy law Elizabeth Spence ac Ifor Williams

## Pont Fawr, Llanrwst, tair bwa ac enfys ddwbl



Enw arall i'r bont yma yw **Pont Rhegi**, mae'n amhosibl i ddau gerbyd fynd heibio yr un amser a dwi wedi gweld ambell i yrrwr yn gwrthod neu yn methu mynd tua'n ol. Trydydd enw yw **Pont y Perlau** oherwydd yn ôl traddodiad cafwyd hyd i berl yn yr afon pan oeddynt yn gosod y garreg sylfaen.

Dangos y llun yma neithiwr mewn sgwrs ac un or gynilleidfa yn dweud bod y rhan o'r awyr rhwng y ddwy fwa yn cael ei alw yn **Alexander's Dark Band**, dyma'r esboniad :

> *The sky between the primary and secondary bows is noticeably darker than elsewhere. Alexander of Aphrodisias first described the effect in 200 AD and it now carries his name. Light rays undergoing a single reflection in raindrops form the primary rainbow or brighten the sky inside it. Rays reflected twice are deviated to form the secondary bow or brighten the sky outside. Raindrops along lines of sight between the two bows cannot send light to your eye and so the sky is darker there.*

Ewch i rifyn 83 am fwy am hyn Llun a straeon Alun Williams

Ewch yma i weld enfys o amgylch yr haul a chael esboniadau am sut y cafodd ei ffurfio. Meddai Alun Williams am ei lun: "Tynnais y llun o draeth Llanddwyn, Ionawr 28, 2012. Dyma'r tro cyntaf i mi weld y rhyfeddod yma. Eglurhad ?"

## Beth yw hwn?



Yr ateb cywir cyntaf i'n cyrraedd erbyn 15 Ebrill yn cael tocyn llyfr £10. **Cofiwch roi eich enw**

## Lleiniau tatws Dun Na nGall



Y llun hwn o 1989 wedi dod i'r fei ers y rhifyn diwethaf (tud. 2) pan drafodwyd y *feannagain* neu'r *lazy beds* yn ardaloedd gorllewinol yr Iwerddon a'r Alban Gol.

## Gwylan yr Arctig



Traeth Pensarn, Abergele, 1 Mawrth 2015. Ymwelydd gweddol brin i Ogledd Cymru. Enwau eraill arni yw gwylan gwlad yr iâ, gwylan ynys yr iâ a *Larus glaucoides* Alun Williams

Roedd yna fewnlifiad mawr ohonyn nhw ym mis Ionawr 2012 i orllewin Prydain, y rhai is-rhywogath o Ganada. Tybed beth oedd tarddiad hon?

**DARLITH GOFFA DAFYDD DAFIS**

**"Cymru: o Ben y Mynydd i'r Môr" gyda Iolo Williams**
**Coleg Llanymddyfri 16 Ebrill 2015**

## Eira eithriadol yn Tatamagouche, Nova Scotia




*We've had more snow and almost everyone is stuck inside because of the snowdrifts. One brave soul managed to get out and follow the plough down Main Street. This is the Art Gallery!! I'd take some pictures for you of what it's like here, but there are 8-10 foot snowdrifts around the doors and I can't get out. And the little men with shovels won't be here until tomorrow at the earliest. At least the electricity hasn't gone out, so that's a blessing. No-one can remember consecutive blizzards as bad as we've had in the last week. WInd Chill -26C. Dyddiad 16 Chwefror 2015* *E Spence drwy law I.W.*

Newid yn yr hinsawdd yn gyfrifol am waethygu stormydd gaeaf yn ôl y gwyddonwyr

## Cored y Rhos.

Ysgrifennodd ohebydd i'r Manchester Guardian (Gorffennaf 2, 1896) : *Those who visit the coast of North Wales should not omit to go at low water to the Fish Weir at Rhos, Colwyn Bay* [tud. 4]*. Though a Pier has now been made there, it has fortunately not in any way interfered with the Weir, and to those who are interested in natural history this is one of the greatest treats they could imagine. There is such a glorious uncertainty about the catch. One day perhaps a solitary dogfish will reward, or rather disappoint, the anxious owner, whilst on another a number and variety may be caught, as was the case when I saw it drawn a few days ago. There were a dozen fine trout, most of them about 2lb in weight, one small codfish, a plaice 2lb in weight, a small sole, a small gurnet of no value, but an exceedingly interesting and curious little fellow, sandeels in great numbers, and about a dozen specimens of the* ***garfish****. It is seldom that in two consecutive tides the same sort of fish will be in the net, unless a shoal of herrings are about, when 1,000 to 1,500 will be in the weir at one time, and it is busy work to get them out before the tide rises again."*

A beth yw *garfish* meddech? Y cornbig *Belone belone*.



Llun: Wikipedia

**Ellis Pierce (1841-1912)** Vivian Parry-Williams



Un a aned yng Ngwm Wybrnant, uwchben Penmachno oedd Ellis Pierce (1841-1912), neu Elis o'r Nant, fel yr adnabyddid ef yn gyffrediniol. Ymysg y pynciau y rhoddai sylw iddynt oedd hanes y tywydd yn ei gynefin, Dolwyddelan, a enwir yn 'wlad y gôg', a'i thrigolion yn 'gwcws' hyd heddiw, oherwydd chwedl hynafol am y lle. Yn ôl y chwedl, ganrifoedd ynghynt penderfynodd y cwrdd plwy' i geisio cadw'r gôg yn No'ddelan drwy'r flwyddyn gan godi wal uchel o amgylch y fro. Roedd Elis, fel y brodorion i gyd, yn gwybod am y chwedl, ac am y modd y byddai eu gelynion dros y fin ym Mhenmachno yn eu gwatgar ar bob cyfle, gyda'r 'gw-cw' yn cael ei seinio ganddynt yn ddibaid tra yn eu cwmni. Meddai, yn ei golofn 'Ebion o Nant Conwy' yn y Cymro, ar 7 Mai, 1896, wrth gwyno am y tywydd, yn ieithwedd y cyfnod, fel ym mhob dyfyniad isod:"Oer ac oer neillduol ydyw yr hin wedi bod ac yn parhau i fod yn Nant Conwy yma. Bu y gôg yn hir heb ganu yn nhreftadaeth ei hynafiaid. Mae'n barugo, ie, yn rhewi, yn ystod y nos, a phenau uchaf y mynyddoedd yn cael eu gorchuddio yn fynych â chaenen deneu o eira".

Ond daeth newyddion tra gwahanol fis yn ddiweddarach, wrth dynnu sylw at y tywydd eithriadol o braf yn y fro yn 1896, yn ei 'Ebion o Nant Conwy' yn y Cymro eto, ar y 18 Mehefin, 1896, dyma ddywed Elis: "Hin o'r fath fwyaf poeth ydym wedi ei gael yn Nant Conwy yma. Y ffynonau wedi sychu i fyny a diffyg gwlybyr. Mae un ffaith ddylid ei gwneud yn hysbys, sef mai prin, a phrin iawn, ydyw 'hu-hu' a 'chw-cw y gog pan fyddo yr hin yn sych. Ni all dyn nac anifail nac aderyn chwaith symud rhyw lawer os bydd y tywydd yn sych. Bydd cân y gog yn tewi yn gwbl haner Mehefin, ac yn fuan yn nechreu Gorphenaf eheda ymaith fel na ddaw mwy i'r golwg hyd ddiwedd Mawrth neu ddechreu Ebrill nesaf. Ni all un fynegu pa mor fuan y bydd i'r cywion y mae yn adael o'i hol ei dilyn - pa un a yw y gog yn dyfod yn ol i gyrchu y cywion ai ynte a ydyw natur wedi dysgu y cywion i ymfudo eu hunain heb yr un cyfarwyddyd. Ni welir un cyw gog hyd yr wyf yn cofio yn mhell ar ol diwedd y cynhauaf gwair.

Ychwanegodd, eto yng ngeirfa a sillafiadau'r cyfnod, megis - 'Rhai pentrefi yn dyoddef yn ddwys oherwydd y sychder. Mae mor ddifrifol yn Nghapel Garmon fel nad oes ond un pistyll bach a hwnw agos at sychu i gyflenwi dau neu dri chant o drigolion. Mae llu o gwynion wedi eu hanfon at Fwrdd Iechyd Llanrwst', gyda diweddglo nodweddiadol o'i bensel finiog tuag at unrhyw awdurdod ...'ond yn hollol aneffeithiol.'!

Mwy yn LLYFRGELL LLÊN NATUR Llun: Eifion Grffiths (Llyn Brenig 26 Mehefin 2013)

**Brwyniaid Conwy**

Meddai [Ellis Pierce] yn ei `Ebion o Nant Conwy`, yn y Cymro ar 29 Mawrth 1894, wedi tywydd gwlyb iawn: "Pysgota o bob math yn dechreu eleni eto, a rhagolygon am lawer o ddifyrwch. Dyma le i gael hwyl ydyw Nant Conwy. Mae y brwyniaid [brwyniad Conwy, *Osmerus eperlanus*, *smelt, sparling*] eto yn cael eu dal yn afon Conwy". Cynhwysai hefyd englyn gan Ceiriog yn trafod y tywydd gwael a fu ar y pryd:

Seibiant geir ar Foel Siabod - a heulwen
A welir ryw ddiwrnod;
Mae'r blodau'n ddiau ar dod
A dirfawr d'wydd yn darfod.



Mwy yn LLYFRGELL LLÊN NATUR Viv Parry-Williams

Ymysg y pysgod ar werth yn yn Ebrill 1885 yn ôl yr Aberystwyth Observer oedd stwrsiwn (8c y pwys), eog (1s/9c), brwyniaid (1s/6d y fasged)

Y map yn dangos dosbarthiad brwyniad Conwy yn ôl The Freshwater Fish of the British Isles

**Hyrddynnod yr Heth fawr**

Deuddeng mil o hyrddynnod (*grey mullet*) yn Nghernyw ddechrau Ionawr 1895.

*HAUL FOR A FISHERMAN. At Sennen Cove, Cornwall, on Saturday [5 Ionawr1895] some fishermen had a haul of 12,000 grey mullet in one net. Many of the fish weighed eight pounds.*

Evening Express 7 Ionawr 1895

Be sydd yn arbennig am hynny meddech. Adnabyddir gaeaf 1895 fel Yr Heth Fawr, un o aeafau oeraf y ddwy ganrif ddiwethaf. Chwefror y flwyddyn honno oedd yr oeraf erioed mewn cof a chofnod ond erbyn dechrau Ionawr roedd y gaeaf wedi gafael eisoes. Tybed oedd yr hyrddynnod yn ffoi tywydd yr Arctig ym mharthau i'r gogledd (gan gynnwys Cymru) ac yn cael hafan gymharol yng Nghernyw.

Roedd yr Afon Dysynni ger Tywyn, Meirionnydd yn arbennig am hyrddynnod yn ol papurau newydd ar lein Y Llyfrgell Genedlaethol. Ewch i'r Tywyddiadur i weld y cofnodion. Ydi hyn yn wir o hyd tybed?

## Mwy am jac y lantar

neu yng Ngaeleg yn ôl ein cyfaill Ruairidh McClean“: *teine biorach (‘sharp fire’) but there is another term – sionnachan – which is also used of the phosphorescence in the sea. Teine-sionnachain ‘phosphorescent fire’ is probably the most common term for the phenomenon. I’ve never seen it myself. Other terms are as follows:*

*Teine-thara ‘spreading fire?’*
*Coinneal-bianain ‘skin, pelt candle/torch?’*
*Spiorad-lodain ‘bog spirit’*
*Srada-bianain ‘skin, pelt spark?’*

*Bianan might also be ‘phosphorescence’ as it’s in old poetry but I can’t get a derivation – so it might not be to do with skin or pelt if there is another origin. What are the Welsh terms for the same?* Gweler Bwletin 85 am y termau Cymraeg.

A dyma’r cofnod Cymraeg cyntaf o jac y lantar, neu’r tân ellyll (er mewn cyfieithiad) i ddod i’r fei yn Llên Natur, diolch i Steffan ab Owain:

> Mr. G. T. Picton-Jones, Pwllheli mewn llythyr yn y Field, yr wythnos o'r blaen, a ddywed:—"Ychydig ddyddiau yn ôl, gwelsom yma yr hyn na welsom erioed o'r blaen — mathau o oleuni, wyth mewn nifer, yn ymestyn tybiwyf dros wyth milldir o bellder. Ym-ddangosai yr oll yn cadw eu tir eu hunain, er yn codi a symud ymlaen igam ogam. Rai prydiau byddent o liw glas ysgafn,: yna fel y goleuni disglaer a welir yn latnpau cerbydau, yna bron fel goleuni trydan, pryd yr ymddanġosent yn diffoddi, ond i ymddangos dra-chefn, yn wanaidd ar y cynta£ gan gryfhau i’r cyflwr yr oeddynt o'r blaen. Dywed un o'm *keepers*, yr hwn sydd yn 70 oed, na welodd erioed o'r blaen beth cyffelybt ac nid oes neb yn yr ārdal yn cofio dim tebyg ychwaith. A all rhai o'ch darllenwyr :fy hysbysu ai tán ellyll (*will~o'-the-whisp*) ydyw, neu beth?: Gwelsom dri ar y pryd wedi hyiiy ar bedwar neu bump o achlysuron"
>
> Y Goleuad Mawrth 6ed, l875

## Panic mewn syrcas

*A serious disaster occurred on Monday night [11 Ebrill] at Ilfracombe. where a large circus tent was blown down, burying people and causing a panic. Fourpawr`s circus and menagerie arrived in the town during the morning and gave an afternoon performance, and in the evening over 5,000 persons were present. After a few items had been given a south-west gale sprung up, rain coming down in torrents. The ringmaster announced that the performance would be stopped, but just as the band stopped playing the National Anthem the wind made a rent in the tent, which descended on the people, and, the naphtha lamps setting it on fire, a panic ensued. Many people were thrown down, but, fortunately, owing to the heavy rain, the flames were easily extinguished, and many of the audience extricated from under the tent. Several persons received injuries, two of them seriously.*

Evening Express 12 April 1898

## Cymylau trawiadol



..... edrych i'r de ddwyrain o Drefnant. Mawrth 7ed, 8.10 a.m. Alun Williams





Welais i hwn ddoe dydd Sadwrn 7 Mawrth 2015 ger Shotton. Wedi ei dynnu efo ffôn symudol tra'n teithio yn y car Llun: Alisa Williams 12 oed


Tynnodd Alun ei lun yn y bore ac Alisa yn y prynhawn.

Meddai Huw Holland Jones: *Super photos of lenticular cloud on 7th March. Yes, it was a classic föhn situation for NE Wales. Moist SSW airstream all the way from Azores, high over Europe, Atlantic weather fronts approaching from west. 18mm orographic rainfall at Capel Curig, but dry & sunny to NNE & NE of high ground as the moist air descends, warms up and dries out on the lee side of the hills. Max temp. only 8C on SW side of hills (Waunfawr, Capel Curig) but up to 14C to the NE side (Rhyl, Hawarden).*

## Llongddrylliadau oddiar arfordir Cymru yn y Rhyfel Mawr

## Diffyg ar yr haul 20 Mawrth


Dyma'r broffwydoliaeth o'r "clip". Dywedwyd y buasai'r diffyg yn rhoi nos ar Ewrop trwy'r dydd oherwydd y dibyniaeth ar baneli solar. A ddigwyddodd hynny? Sut glip gawsoch CHI?





Anfonwch eich lluniau. A dyma rai clipiau hanesyddol:

21 Awst 1914, Llandudno: *Barometer 7:30 a.m. 29.95 10:30 p.m. 29.92. Shower of rain between 9 & 10 a.m. Dull morning sunny afternoon. Rather stormy looking sunset. Partial Solar Eclipse first noticed by me about 1215. A very cloudy sky*

Dyddiadur Harry Thomas



Amser: 10.45



Amser: 11.11

11 Awst 1999, Cnicht: Dau lun wedi eu cymryd dros gyfnod y diffyg heb gywiro'r camera ar gyfer y golau. Mae'n fesur fwy cysact felly o effaith y diffyg ar y golau gan fod ein llygaid yn cywiro i ddiffyg golau ac yn gweld yr effaith yn llai na'r camera. Wil ac Ann Jones

Gweler Y Naturiaethwr Rhagfyr 1999.

Brynddu, Llanfechell 14 Gorffennaf 1748: *A Great Eclipse on the sun at 10 this morning, very visible in so much that the light part of the sun was no bigger than the moon when it is 3 days old; superstition hath possessed the vulgar to the degree that in several parishes in ths county...they had desired the ministers to read them prayers*

Dyddiadur William Bulkely


Llawer mwy yn y Tywyddiadur.
Bydd stori adguddiad yr haul eleni yn rhifyn Mai.

## Cwmwl arall



Dyma lun cymylau arall: Fe dynnwyd hwn o'r haul ar Aran Fawddwy yn Ionawr 2011 yng Nghwm Cynllwyd. Mae siap y mynydd yn cael ei daflu ar y cymylau [nid glas yr awyr rhwng y cwmwl a'r mynydd yn dwyn ffurf mynydd Gol.] Beryl Griffths

## Telor y coed - dal ei dir?



map o geiliogod yn canu yng ngogledd Ardudwy yn 1984 (o hen sleid) fel rhan o arolwg cenedlaethol. Y ddiweddar Joan Addyman wnaeth llawer o'r gwaith maes.

Seilwyd pob smotyn ar glywed can(euon) y ceiliog Dyma'r clystyrau, yn glocwedd: saeth glas, Cwm Bychan; gwyrdd Talsarnau; coch, Ceunant Llennyrch, a du, Coed y Rhygen (Llyn Trawsfynydd). Mae pryder mawr bellach ynglyn a pha mor gref yw poblogaeth telor y coed . Beth am i rai ohonoch wirio y mis hwn bresenoldeb telor y coed - mae gan yn hollol nodweddiadol a hawdd ei adnabod.

## Ac un arall...!



Rhif pump i'r Oriel! Pysgodyn clicied a ganfuwyd gennyf ar draeth Harlech ar y 23ain o Ragfyr (2014).

Rhodri Dafydd

Ar ôl anfon y llun i Lucy Kay (Swyddog Cadwraeth Pen Llyn a'r Sarnau, Cyfoeth Naturiol Cymru) derbyniais yr ymateb: *Yes, looks like grey triggerfish (Balistes capriscus (used to be B. carolinensis)). Interesting one to see washed up and looking in quite good condition. More frequent summer visitor and some records indicating that they may over-winter in some locations although perhaps not every year, but depending on water conditions and temperature.*

Mae pob un o'r pump yn yr Oriel yn ddyddiedig rhwng Tachwedd a Ionawr Gol

## Chwilota:

**colofn Dafydd W Thomas yn Eco'r Wyddfa**

**chwilota.wordpress.com**